



Cyngor Sir Powys
Neuadd Y Sir
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5LG

Dyddiad: 3 Rhagfyr 2020

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Dros y dyddiau diwethaf gwelwyd cryn ddyfalu a thybio yn y cyfryngau ynghylch dyddiadau diwedd y tymor ar gyfer ysgolion ledled Cymru.

Dydd Gwener 18 Rhagfyr yw dyddiad diwedd y tymor i'n dysgwyr yma ym Mhowys. Bwriad Cyngor Sir Powys yw i'n hysgolion aros ar agor tan y dyddiad hwn.

Rydym wedi ystyried yn fanwl a ddylai'r cyngor gefnogi dyddiad cau cynt. Rydym wedi ymgysylltu â'n partneriaid yn y gwasanaethau iechyd ac iechyd cyhoeddus fel rhan o'r pwyso a mesur yna.

Rydym wedi penderfynu **y dylai ysgolion ym Mhowys aros yn agored yn llawn ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol hyd nes diwedd y tymor ar ddydd Gwener 18 Rhagfyr.**

Nid oes rheswm iechyd cyhoeddus pam na ddylai hwn ddigwydd. Ar ben hyn, codwyd pryderon bod rhai dysgwyr a fu'n absennol o'r ysgol yn ystod achosion Covid-19 wedi bod yn cymysgu'n rhydd y tu allan i leoliadau ysgol a thrwy hynny'n codi'r peryglon i bawb yn y gymuned.

Mae ein hysgolion wedi dangos ymroddiad rhagorol trwy gydol y flwyddyn i reoli eu swigod er mwyn atal heintiau. Maent hefyd wedi ymateb yn gyflym pan gafwyd achosion, gan gynnwys yn ystod penwythnosau. Mae hyn wedi chwarae rhan sylweddol mewn helpu i reoli cyfraddau heintio ar draws Powys a dylem i gyd fod yn ddiolchgar am hyn.

Rydym hefyd yn deall bod rhedeg ysgolion yn ystod yr adegau anghyffredin yma wedi bod yn hynod o flinderus, ac mae pob un o staff ein hysgolion yn edrych ymlaen at seibiant y mae ei fawr angen dros y Nadolig. Maent wedi cefnogi plant a effeithiwyd gan Covid-19, darparu dysgu ar-lein ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth ar adegau gwahanol trwy'r tri thymor diwethaf. Bu'n rhaid i rai hunanynysu sydd yn achosi ei straen a'i bryder ei hun i'r unigolion, eu teuluoedd a'u cydweithwyr.

Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i sut y dylem reoli'r cyfnod hyd at ddydd Gwener 18 Rhagfyr. Mae sawl rheswm pam rydym yn gofyn i'n hysgolion barhau i aros yn agored tan y dyddiad a bennwyd yn wreiddiol - oni bod rhaid i

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



ysgol gau ar frys oherwydd rheswm iechyd cyhoeddus. . O ganlyniad, ein disgwyliad yw y bydd yr addysgu yn digwydd yn yr ysgol yn unig, oni bai bod dysgwyr i ffwrdd o'r ysgol am fod rhan o'r ysgol ar gau o achos y feirws.

Dyma'r rhesymau dros aros yn agored yn ystod yr wythnos olaf:

- Yr angen i gynnal amgylchedd trefnus i'n dysgwyr yn yr wythnosau cyn y Nadolig
- Yr angen i gefnogi llawer o ddysgwyr y buodd yr ysgol yn rhan bwysig o gadw meddylfryd cadarnhaol iddynt dros y misoedd diwethaf
- Yr angen i gefnogi rhieni y mae'n rhaid iddynt fod yn y gwaith yn yr adeg hollbwysig yma cyn y Nadolig
- Y pryder y gall mis Ionawr fod yn fis mwy heriol i ni i gyd os bydd y rhyddidau dros y Nadolig yn arwain at newid mawr mewn cyfraddau heintio ar draws Cymru.

Rydym yn falch dros ben o glywed y bydd y brechiad yn cael ei gyflwyno ledled Powys dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf. Fodd bynnag, ni fydd yn cyrraedd mewn pryd i gael effaith ar ysgolion cyn y Nadolig.

O ganlyniad, rydym yn annog i'n holl bobl ifanc, ein staff a'n rhieni i wneud popeth y gallant i atal lledaeniad y feirws ym Mhowys trwy gyfyngu ar gyswllt gydag eraill ac i gadw pellter cymdeithasol. Mae'n bwysig bod pawb yn parhau i wisgo mygydau wyneb a golchi eu dwylo'n rheolaidd.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n hysgolion ac yn ymchwilio i weld sut y gellir trefnu wythnos olaf y tymor i leihau'r peryglon o'r haint yn lledaenu yn ein hysgolion.

Dilynwch y cyngor ar gyfer coronafeirws trwy fynd i <https://llyw.cymru/coronafeirws>

Y Cyngorydd Phyl Davies
Aelod y Cabinet ar faterion Addysg ac Eiddo

Geraint Rees
Arweinydd Strategol Addysg

Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Dro

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk